

Bwletin Awdurdod S4C - Mehefin 2000

Fe gynhaliodd yr Awdurdod gyfarfodydd yng Nghanolfan Celtica, Machynlleth ar 25 a 26 Mai 2000.

Y CYFARFOD CYHOEDDUS

Ar nos Iau, 25 Mai, fe gynhaliodd yr Awdurdod ei gyfarfod cyhoeddus agored mwyaf diweddar lle bu oddeutu 25 o'r cyhoedd yn bresennol. Roedd hyn yn dilyn derbyniad lle cafwyd dangosiad arbennig o gyfres newydd S4C *Y Celtiaid*. Roedd y gyfres, a gynhychir ar y cyd â Theledu Gaeleg yr Alban, newydd gael ei dangos yn y farchnad ryngwladol a dangoswyd diddordeb sylweddol ynddi gan brynwyr o wledydd dros y byd. Byddai copi arbennig yn cael ei ddangos yn Celtica am gyfnod cyn y telediad.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y cyfarfod agored. Roedd holl Aelodau eraill yr Awdurdod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod.

Ymysg y materion a drafodwyd roedd:

Rhaglenni S4C

Noson Lawen –

Lleisiodd aelod o'r cyhoedd anfodlonrwydd fod yr un hen wynebaw yn ymddangos ar raglenni'r gyfres hon pa le bynnag oedd y nosweithiau yn cael eu cynnal. Cyfeiriwyd at brifwyl yr Urdd a soniwyd am y dalent ifanc oedd yn amlwg ar gael yng Nghymru ond rhywsut neu gilydd oedd yn cael ei golli wrth iddynt adael yr ysgol ac, efallai, yn mynd i goleg neu'n symud o'u hardal. Holwyd onid oedd rhywbeth y gellid ei wneud i rwystro colli y bobl hyn ac awgrymwyd bod yna le i bobl amatur ymddangos mewn rhaglenni fel *Noson Lawen*.

Trafododd Huw Jones y pwynt o feithrin talent a dod â wynebaw newydd i'r sgrin. Cyfeiriodd at y ffaith fod yna wrandawiadau yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar gyfer *Noson Lawen* ac yn hynny o beth roedd yna gyfle i bawb yng Nghymru gynnig eu hunain. Er hynny, estynnodd y gwahoddiad i unrhyw un oedd yn gwybod am dalent i gysylltu â S4C i roi gwybod pwy ydyn nhw. Roedd angen cofio serch hynny mai un ystyriaeth gan gynhyrchwyr rhaglenni oedd bod angen o leiaf un enw adnabyddus er mwyn denu cynulleidfa i'r nosweithiau hyn. Ond cydnabuwyd bod angen cymysgedd a balans o bobl adnabyddus a thalent newydd ar *Noson Lawen*.

Ymhelaethodd Elan Closs Stephens ar y pwynt o feithrin talent a soniodd bod S4C yn cydnabod pwysigrwydd rhoi hwb ymlaen i bobl ifanc. Cyfeiriodd at y ffaith bod S4C yn cynnig dwsin bob blwyddyn o ysgoloriaethau i dalu i bobl ifanc fynd ar gyrsiau drama, cerddoriaeth, canu, perfformio ac ati. Roedd y Sianel yn cydnabod oni bai fod talent yr ifanc yn cael ei ddatblygu fe fydd yna broblemau yn codi yn y dyfodol.

Yr Urdd –

Holwyd os byddai S4C yn darlledu y cystadlaethau yn ystod y dydd ar analog oherwydd dim ond lleiafrif oedd yn derbyn S4C digidol. Cadarnhaodd Huw Eirug fod S4C yn darlledu o'r Urdd trwy gydol y dydd ar S4C digidol ac esboniwyd y byddai cyfrifoldeb ar y Sianel i ail amserlennu rhaglenni Channel 4 ar analog am rai blynyddoedd i ddod. Golygodd hyn nad oedd yn ymarferol bosibl i S4C ddarlledu trwy'r dydd ar y gwasanaeth analog a dyna pam sefydlwyd y gwasanaeth digidol. Cyfeiriodd Huw Jones at y ffaith y bu yna gryn gam argraff adeg yr Eisteddfod Genedlaethol Ilynedd lle'r oedd rhai pobl yn credu bod llai o'r Eisteddfod yn cael ei ddarlledu ar y gwasanaeth analog nag a fu yn y gorffennol. Nid oedd hyn yn wir. Roedd union yr un faint ar y gwasanaeth traddodiadol ond oherwydd bod yr Eisteddfod wedi newid ei amserlen fel ei fod yn cychwyn yn hwyrach yn y prynhawn roedd pobl yn credu fod llai o'r Eisteddfod yn cael ei ddarlledu.

Pobol y Cwm –

Lleisiodd rhai o'r gynulleidfa y farn bod safonau *Pobol y Cwm* wedi disgyn a rhoddwyd esiamplau o'r agweddau nad oedd yn plesio. Gwrandawodd Huw Eirug ar y pwyntiau a wnaethpwyd a chan mai rhaglen gan y BBC oedd hon, addawodd y byddai'n mynd â'r sylwadau a wnaethpwyd yn ôl at y tîm cynhyrchu oedd yn gyfrifol am yr opera sebon.

Comedi –

Beirniadodd un aelod o'r gynulleidfa safon y rhaglenni comedi oedd ar S4C. Wrth ateb, cydnabyddodd Huw Eirug fod hwn yn faes lle'r oedd S4C wedi cael sawl methiant, ond y peth pwysig oedd bod y Sianel yn dal ati i geisio dod o hyd i raglenni comedi llwyddiannus.

Perthynas S4C â'r Canolbarth

Holwyd a fyddai S4C yn cael defnyddio swyddfa newydd y BBC yn Aberystwyth er mwyn i bobl y canolbarth fedru cael man y gallent fynd iddo i gysylltu â S4C. Atebodd Huw Eirug mai ar gyfer y BBC yn unig oedd y datblygiad ar hyn o bryd, ac er nad oedd hynny'n golygu na allai S4C gynnal trafodaethau gyda'r BBC yn y dyfodol, nid oedd yna gynlluniau i wneud hyn ar y foment. Yr hyn oedd yn fwy pwysig o ran safbwynt S4C oedd i greu bwrlwm o ran cynhyrchu yn y canolbarth. Prin iawn yw'r cwmnïau sydd yn cyflenwi rhaglenni i S4C ar hyn o bryd yn yr ardal hon a theimlwyd i hyn fod yn drueni oherwydd roedd S4C eisiau adlewyrchu Cymru gyfan ac roedd yn bwysig bod y bwrlwm yna yn digwydd mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Soniodd Huw Jones y byddai stiwdio'r BBC yn Aberystwyth yn cael ei defnyddio at bwrpas newyddion ar S4C oherwydd y BBC oedd yn darparu'r gwasanaeth newyddion i S4C ac felly roedd yna ddisgwyl y byddai hynny yn hwyluso eu gwaith nhw o adlewyrchu digwyddiadau y canolbarth yn y rhaglenni newyddion. Nododd y gynulleidfa'r hyn a ddywedwyd ond roedd yna deimlad ymhlith rhai ei bod hi'n bwysig fod yna le i'r cyhoedd fynd ato yn y canolbarth os oeddynt eisiau cysylltu â S4C.

Safon Ieithyddol ar S4C

Holodd aelod o'r cyhoedd os oedd gan S4C ffurf sefydlog o safoni iaith. Atebodd Elan Closs Stephens fod hyn yn bwnc aruthrol o fawr. Soniwyd bod gan S4C Grwp Cydymffurfiaeth sydd yn monitro'r gwasanaeth gan gynnwys monitro safonau ieithyddol ac sydd hefyd yn cynnal seminarau i gynhyrchwyr bob hyn a hyn. Er hynny, nid oedd yna atebion rhwydd i'r cwestiwn o safon iaith. Roedd rhaid i'r Sianel apelio at gynulleidfa oedd yn amrywio yn eu gallu ieithyddol ac roedd hi'n bwysig i beidio dieithrio pobl ac i ddenu pobl i fewn i'r Sianel a hefyd i'w cadw nhw i wyllo. Cytunodd Huw Jones fod y mater o safon iaith yn gwestiwn cymhleth tu hwnt. Soniodd mai prif swyddogaeth rhaglen deledu a'r bobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglen deledu yw i gyfathrebu. Roedd gan wahanol raglenni wahanol gynulleidfaoedd targed, ac felly roedd cywair ieithyddol gwahanol yn ddilys. Tra nad oedd Huw Jones yn honni fod gan S4C yr atebion i gyd ar y pwnc yma, roedd am sicrhau'r gynulleidfa fod y Sianel yn rhoi sylw ac yn meddwl yn galed am y pethau hyn.

Y Byd tu allan i Gymru

Awgrymwyd nad oedd rhaglenni ffeithiol S4C yn gwneud digon o ymdrech i ddarganfod beth sydd yn digwydd yn y gwledydd bychain ar draws Ewrop a rhannau eraill o'r byd nac yn adlewyrchu Ewrop aml ieithog. Awgrymwyd hefyd nad oedd darlledu yn yr Undeb Ewropeaidd chwaith yn amlwg yn arlwy y Sianel. Atebodd Huw Jones fod S4C fel sefydliad yn cymryd rhan yn y broses o hyrwyddo canfyddiad o werth ieithoedd bychain o fewn Ewrop ac roedd yn aml yn cymryd rhan mewn seminarau yn trafod teledu a ieithoedd bychain. Yn wir, roedd S4C yn cael ei gweld yn flaengar yn y maes yma ac roedd pobl yn troi at y Sianel yn gyson am farn. Roedd S4C hefyd yn cymryd rhan mewn cynadleddau oedd, gobeithio, yn dylanwadu ar bolisi darlledu yn Ewrop ac ym Mhrydain. O ran rhaglenni, soniodd Huw Eirug fod S4C, wrth gwrs, yn cyd-gynhyrchu gyda gwledydd yn Ewrop. Cyfeiriodd hefyd at raglen a roddodd sylw mawr i'r Catalaniaid, y Galisiad a'r Basgiaid, sef, *Sgorio*, yn ogystal â'r ffaith y cafodd cyngerdd yn Catalan gyda'r Gorky's yn canu ei darlledu ar S4C digidol. Er hyn oll, awgrymodd Elan Closs Stephens y gallai hwn fod yn fater y gallai swyddogion S4C roi sylw ymhellach iddo wrth ystyried natur a chymysgedd y gwasanaeth rhaglenni ar gyfer y dyfodol.

Ail-ddangosiadau

Awgrymodd aelod o'r cyhoedd fod yna deimlad fod rhai rhaglenni yn cael eu hail ddangos yn weddol fuan ar ôl iddynt gael eu dangos y tro cyntaf. Holwyd os mai rheswm ariannol oedd tu ôl i hyn. Atebodd Huw Jones nad oedd yna reol aur ynglyn â phryd dylid ail ddangos rhaglenni. Aeth ymlaen i ddweud na allai addo y byddai yna lai o ail ddangos yn y dyfodol ond gyda'r oriau darlledu yn cael eu hystmestyn ar deledu digidol i 12 awr rhwng hanner dydd a hanner nos, byddai cyfleoedd i weld rhaglenni ar wahanol amserau. Felly, byddai gwyliwr sy'n cychwyn gwyllo am 8 o'r gloch y nos yn annhebygol o weld rhaglen yn cael ei ailddarlledu yn y slot yna, ond efallai byddai'n cael ei dangos am hanner awr wedi dau yn y prynhawn neu ryw beth felly.

Ail-amserlennu rhaglenni Channel 4

Holwyd sut oedd penderfyniadau yn cael eu gwneud ynglyn â pha rai o raglenni Channel 4 fyddai'n cael eu dangos ar S4C. Awgrymwyd bod yna nifer o raglenni da gan Channel 4 nad oedd i'w gweld ar S4C. Atebodd Huw Jones mai'r rhaglenni mwyaf poblogaidd ar Channel 4 oedd yn cael y slots gorau ar S4C ac roedd yna ystadegau i ddangos pa rai oedd yn fwyaf poblogaidd. Er hynny, roedd rhaid cydnabod fod S4C yn wynebu problemau pan nad oedd neb yn gallu darogan poblogrwydd rhaglen. Yr oedd S4C, beth bynnag, yn gwneud y gorau gallai ond roedd yn broblem gwbl sylfaenol i geisio gwasgu dwy ffrwd i mewn i un hafn, fel petai, ac yr oedd rhaid cydnabod bod y Sianel yn ei chael hi'n anghywir weithiau.

Y CYFARFOD BUSNES

Cynhaliwyd cyfarfod busnes arferol yr Awdurdod ym Machynlleth ar 26 Mai.

Elusen S4C

Nododd yr Awdurdod taw'r wythnos benodol ar y rhaglen *Heno* ar gyfer codi arian i Elusen S4C fyddai'r wythnos yn cychwyn 19 Mehefin. Tynnwyd sylw at y ffaith y codwyd £100,000 llynedd a swm tebyg y flwyddyn gynt. Elusen S4C eleni yw'r NSPCC.

***Gŵr y Gwyrthiau/The Miracle Maker* –**

Adroddwyd bod S4C wedi derbyn llythyr oddi wrth ABC Entertainment a gyfleodd eiriau caredig a chynnes ar rôl S4C wrth ddod ag animeiddwyr o Gymru a Rwsia at ei gilydd i greu ffilm mor arbennig. Soniwyd yn y llythyr bod ABC wedi derbyn 10,000 o lythyrau mewn perthynas â'r ffilm, y nifer mwyaf iddynt dderbyn ers 1995.

Cymru yn Cannes

Adroddodd y Cadeirydd ar ei gwaith dros S4C yng Ngwyl Ffilm Cannes. Soniodd ei fod hi'n drawiadol fod yna bymtheg ffilm ymhlith y rheini y rhoddwyd sylw iddynt mewn cylchgrawn ffilm yn Cannes gyda chysylltiad Cymreig cryf.

Y Cynulliad Cenedlaethol – Pwyllgor Addysg Ôl-16

Adroddwyd ar ymddangosiad S4C, HTV a'r BBC o flaen y Pwyllgor i roi tystiolaeth parthed ymwneud y darlledwyr â'r celfyddydau yng Nghymru. Byddai cyfle arall i S4C roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor pan fyddai'n rhoi sylw penodol i ddarlledu ar 22 Mehefin a nodwyd ei fwriad i roi mewnbwn i'r Papur Gwyn ar ddarlledu oedd ar y gweill. Nododd yr Aelodau fod cofnod o'r dystiolaeth a roddodd S4C i'r Pwyllgor ar gael ar safle we y Cynulliad.

Cylch yr Iaith

Cyfeiriwyd at y ffaith bod aelod o Gylch yr Iaith wedi bod mewn achos llys oherwydd iddo beidio â thalu ei drwydded teledu. Mynegodd Aelodau'r Awdurdod siom ynghylch y sefyllfa yn enwedig wrth iddynt ddeall yn eu cyfarfod diwethaf fod y cyfarfod a fu yn ddiweddar rhwng swyddogion S4C a chynrychiolwyr Cylch yr Iaith wedi mynd yn dda a bod yna beth tir cyffredin rhwng Cylch yr Iaith a S4C wedi'i adnabod.

Awgrymwyd bod angen trafodaeth genedlaethol ar y mater hwn. Fel man cychwyn byddai cynhyrchwyr *Y Byd ar Bedwar* yn gwneud rhaglen wrthrychol ar y pwnc. Byddai ystyriaeth yna'n cael ei roi i gynnal darlith/trafodaeth ddilynol a chyfeirwyd ar yr Eisteddfod Genedlaethol i'w gynnal yn Llanelli ym mis Awst fel un syniad posib.

Adroddiad Blynyddol BSS Cymru 1999

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad blynyddol cwmni BSS ar y gwasanaeth Gwifren Gwylwyr a ddarparodd i S4C yn ystod 1999. Rhoddodd yr adroddiad fanylion ynghylch y cysylltiadau a fu gyda'r Wifren trwy lythyrau, galwadau ffôn, e-byst, neu'r Siop Siarad ar y we. Roedd yr Awdurdod yn falch i weld codiad o 34% yn y nifer o gysylltiadau i gymharu â 1998 gan fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod gwylwyr S4C yn dod yn fwy ymwybodol o'r gwasanaeth.

Pecyn Gwybodaeth S4C

Tynnwyd sylw'r Awdurdod at y pecyn gwybodaeth am S4C oedd bellach ar gael i'r cyhoedd. Nodwyd ei fod wedi ei gynhyrchu mewn modd lle y gellid ychwanegu ato yn y dyfodol. Gall y cyhoedd cael gafael ar becyn trwy gysylltu â Swyddfa Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus S4C.

Nawdd

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gais a dderbyniwyd oddi wrth wyl Ffilm a Theledu Caeredin am nawdd ar gyfer dderbyniad i ddilyn Darlith MacTaggart, sef, digwyddiad pwysig a dylanwadol a gynhelir ar ddiwrnod agoriadol yr wyl. Byddai'r derbyniad yn cael ei noddi ar y cyd gyda BBC Scotland. Nodwyd bod S4C wedi noddi digwyddiad tebyg dros y tair blynedd diwethaf ac wedi llwyddo i gael cryn broffil ohono.

Cynllun Corfforaethol 2001-2005: Cwestiynau Strategol

Cafodd yr Awdurdod drafodaeth hir ac eang ar nifer o gwestiynau strategol roedd angen eu hystyried a rhoi arweiniad i swyddogion S4C arnynt er mwyn eu galluogi i ddechrau ar y gwaith o lunio cynllun corfforaethol ar gyfer y blynyddoedd 2001-2005. Bwriedir cyhoeddi fersiwn terfynol y cynllun corfforaethol hwn adeg tymor yr hydref.

Nodyn Prif Faterion gan yr Archwilwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 1999

Nododd yr Awdurdod â phleser nad oedd yna unrhyw faterion o sylwedd yn codi allan o'r Nodyn Prif Faterion a dderbyniwyd oddi wrth yr archwilwyr Grant Thornton. Yn ôl gofynion yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, byddai copi o'r Nodyn yn cael ei ddanfôn ati.

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Personél a Gweinyddiaeth

Derbyniodd yr Awdurdod adroddiad ar waith yr Adran Personél a Gweinyddiaeth gan ei Gyfarwyddwr. Adroddwyd ar natur y gweithlu, sef y nifer o staff, yr oriau a weithiwyd, y canran rhwng gwryw a benyw; proffil oedran; lle'r oedd staff yn tarddu ohoni a'u gallu Cymraeg; a manylion cyfnod gwasanaeth i S4C. Aethpwyd ymlaen i roi mwy o fanylion ynglyn â gwaith yr Adran. Soniwyd am y gwaith yn gysylltiedig â chyflogaeth, megis recriwtio, cytundebu a llês/amodau/disgyblaeth, datblygu ac addasu polisiau i adlewyrchu deddfwriaeth newydd ac ati. Esboniwyd yr hyn a wnaethpwyd yn y maes hyfforddiant mewn perthynas â datblygiad gyrfaol, cynnig cyrsiau gyrfaol, datblygu cyfathrebu mewnol, yr ysgoloriaethau a gynigiwyd, yn ogystal â'r cysylltiadau gyda Cyfle a'r National Film and Television School. Eglurwyd hefyd yr hyn a wnaethpwyd ar yr ochr weinyddol, sef edrych ar ôl adeiladau S4C; materion iechyd a diogelwch; trefnu systemau cyfathrebu (h.y. y dderbynfa, ffôn, ffacs, post, ac ati); archebu a gofalu am nwyddau, celfi ac offer. Daethpwyd â'r cyflwyniad i ben wrth gyfeirio at lwyddiannau S4C a gydlynwyd gan yr Adran, sef, Buddsoddwyr mewn Pobl 2000, Nod Siarter 1998, Cynllun Iaith S4C 1998, a Chyflogwr y Flwyddyn 1995

Materion Eraill

Ystyriodd yr Awdurdod adroddiadau rheolaidd ar:

- waith y Pwyllgor Archwilio.
- berfformiad rhaglenni S4C
- gydymffurfiaeth
- gwynion ynglyn â rhaglenni unigol
- gyllid S4C
- weithgareddau masnachol.